

bwletin gweinyddiaeth etholiadol



Rhifyn 252 (Cymru) - 23 Hydref 2019

Fy Mhleidlais I: integreiddio gwybodaeth i bleidleiswyr i wefan y Comisiwn

Fel y gwyddoch eisoes, mae gan ein gwefan gwybodaeth i bleidleiswyr, **Fy Mhleidlais I**, gartref newydd o fewn electoralcommission.org.uk.

Bellach gellir dod o hyd i bopeth a oedd ar gael o'r blaen ar **Fy Mhleidlais I** yn yr adran 'Rwy'n bleidleisiwr' o fewn electoralcommission.org.uk, a bydd cyfeiriad gwe.fymhleidlaisi.co.uk yn ailgyfeirio pobl yno yn awtomatig.

Mae strwythur yr adran honno ar hyn o bryd yn cyfateb i'w ragflaenydd, ond yn ystod y misoedd nesaf byddwn yn diweddarau'r cynnwys i'w wneud mor ddefnyddiol a chlir â phosibl i bleidleiswyr.

Dyluniwyd safle'r Comisiwn Etholiadol yn ei gyfanrwydd i leihau dibyniaeth defnyddwyr ar gwymplenni. Y rheswm am hyn yw y gall y rhain fod yn hir iawn ac yn ddryslyd, ac maent hefyd yn heriol i ddefnyddwyr ag anghenion hygrychedd. Felly rydym wedi buddsoddi mewn teclun chwilio bwerus, ac rydym yn argymhell eich bod yn ei defnyddio hwn i lywio'r wefan. Yn y pen draw, bydd defnyddio'r teclun chwilio yn arbed amser a dylai helpu defnyddwyr i gyrraedd y cynnwys sydd ei angen arnynt yn yr amser byrraf.

Byddem wrth ein bodd clywed eich adborth ar adran newydd 'Rwy'n bleidleisiwr' ar ein gwefan, felly os gwelwch yn dda [anfonwch adborth atom](#).

Diweddariad ymwybyddiaeth y cyhoedd: cefnogi ein partneriaid - pecyn cymorth newydd

Rydym wedi datblygu [pecyn cymorth newydd](#) sy'n gwneud hi'n haws i hyrwyddo cofrestru pleidleiswyr trwy gydol y flwyddyn.

Mae'n llawn poster, graffeg cyfryngau cymdeithasol a gwybodaeth

Cynnwys

Fy Mhleidlais I:
integreiddio gwybodaeth i
bleidleiswyr i wefan y
Comisiwn

Gwybodaeth am integreiddio
Fy Mhleidlais I i wefan y
Comisiwn.

.....
Diweddariad
ymwybyddiaeth y
cyhoedd: cefnogi ein
partneriaid - pecyn
cymorth newydd

Gwybodaeth am becyn
cymorth cofrestru
pleidleiswyr newydd a dolenn
iddo.

.....
Rydym yn cyhoeddi bwletinau yn
rheolaidd. Maent yn un o'n prif
ffyrdd o gyfathrebu gyda
Swyddogion Canlyniadau,
Swyddogion Cofrestru Etholiadol
a'u staff. Mae rhifynnau'r
gorffennol o Fwletinau Cymru,
Lloegr a'r Alban ar gael [yma](#).
Gallwch hefyd [danysgrifio i'r](#)
[Bwletin](#).

Rhowch wybod i ni am unrhyw
newidiadau staff yn eich tîm. Bydd
hyn yn helpu i ni sicrhau bod ein
rhestr bostio yn gyfredol.

Os oes Swyddog
Canlyniadau/Swyddog Cofrestru
Etholiadol yn cael eu penodi yn
eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm
yng Nghymru drwy e-bostio
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

Rydym yn anfon y cylchlythyr
yma atoch gan ei fod yn cynnwys
gwybodaeth bwysig am waith y
Comisiwn Etholiadol sy'n

ddefnyddiol am gofrestru i bleidleisio. Ac nid oes dim ohono'n benodol i etholiad, sy'n golygu y gallwch chi ddefnyddio'r adnoddau trwy gydol y flwyddyn a phryd mae'n fwyaf perthnasol i'ch cynulleidfaoedd.

Diolch am eich cefnogaeth.

Fel y gwyddoch, pleidleisio yw congfaen cyfranogiad pobl mewn democratiaeth. Y blwch pleidleisio yw'r man lle mae pobl yn cael dweud eu dweud ar bwy sy'n eu cynrychioli ar lefel leol neu genedlaethol, i wneud penderfyniadau ac i weithredu ar eu rhan.

Ond os nad yw pobl yn cofrestru, ni allant bleidleisio. Trwy barhau i annog pobl i gofrestru i bleidleisio, rydych yn ein helpu i sicrhau bod pawb sy'n gymwys i bleidleisio yn gallu gwneud hynny os dymunant.

Rydym yn gwybod nad yw bob amser yn hawdd gwneud hyn o ystyried blaenoriaethau cystadleuol, a diolchwn ichi am eich cefnogaeth barhaus.

Rydym eisiau clywed gennych chi

Gobeithio y bydd y pecyn cymorth newydd hwn yn ddefnyddiol i chi a byddem yn croesawu [eich adborth](#).

.....
Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Ty'r Cwmniau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Textphone: 18001 020 7271 0500
gwytodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

© Y Comisiwn Etholiadol 2019

berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (<https://www.comisiwnetholiadol.org.uk/privacy-notice>)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr yma mwyach, gallwch [ddad-danysgrifio](#) unrhyw bryd.